



BANK OF ENGLAND

Cynllun Iaith Gymraeg y Bank of England (y Banc)

1 Ebrill, 2015

CynllunlaithGymraeg y Bank of England (y Banc)

I. CYFLWYNIAD

1 Cefndir

- 1.1 Dyma Gynllun laith Gymraeg y Bank of England ("y Banc")¹ dan Ddeddf yr laith Gymraeg 1993 ("y Ddeddf") Cafodd ei gymeradwyo dan adran 14 y Ddeddf gan Fwrdd yr laith Gymraeg ar 14 Hydref 2011. Wedyn diweddarwyd y Cynllun i gymryd ystyriaeth o: (a) greu'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus ("y PRA"), fel is-gwmni i'r Banc, yn Ebrill 2013 (cymeradwywyd y diweddariad gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 20 Mai 2014); a (b) ail-lunio ymrwymiad y Banc i'w ddau bwrpas craidd yn Ddatganiad Cenhadaeth sengl hollgynhwysol ym Mawrth 2014 (cymeradwywyd y diweddariad gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 1 Ebrill 2015).
- 1.2 Mabwysiadwyd y cynllun gan y Banc i roi effaith, cyn belled ag y mae'n briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, i'r egwyddor a sefydlwyd gan y Ddeddf, y dylai'r ieithoedd Cymraeg a Saesneg gael eu trin ar sylfaen o gydraddoldeb ("yr egwyddor o gydraddoldeb") wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.
- 1.3 Mae'r cynllun yn pennu'r mesurau mae'r Banc yn bwriadu eu cymryd i roi effaith i'r egwyddor o gydraddoldeb pan yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.
- 1.4 Mae'r cynllun yn cymryd i gyfrif y fframwaith ariannol i'r Banc a osodwyd gan Lys Cyfarwyddwyr y Banc, sydd o dan ddyletswydd statudol i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau'r Banc. Wrth baratoi'r cynllun hwn, mae'r Banc wedi ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr laith Gymraeg dan adran 9 y Ddeddf. Gellir gweld rhagor o wybodaeth ynghylch cwmpas a phwrpas cynlluniau laith Gymraeg yng nganllawiauBwrdd yr laith Gymraeg (www.welsh-language-board.org.uk).
- 1.5 Cynhaliodd y Banc ymgynghoriad cyhoeddus ar ei gynllun laith Gymraeg drafft yn ystod cyfnod o 13 wythnos a barodd o ganol Mai tan ganol Awst yn 2011. At ei gilydd, derbyniodd y Banc bump ymateb ffurfiol i'w ymgynghoriad. Gellir gweld rhagor o fanylion ynghylch yr adborth i'r ymgynghoriad ar www.bankofengland.co.uk/publications/Pages/other/welsh/consultation.aspx
- 1.6 Ble mae'r cynllun yn cyfeirio at wasanaethau i'r cyhoedd, mae hyn yn golygu gwasanaethau i'r cyhoedd o fewn ystyr y Ddeddf. Ble mae'n cyfeirio at gamau i'w cymryd lle mae'n "ymarferol", mae hyn yn golygu ble mae'n briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, o ystyried yr egwyddor o gydraddoldeb.

2 Y Banc a'r PRA

- 2.1 Y Banc yw banc canolog y Deyrnas Unedig. Mae ganddo gyfrifoldeb am sefydlogrwydd ariannol a chyllidol. Mae'r PRA yn is-gwmni i'r Banc, ac mae ganddo gyfrifoldeb am reoleiddio a goruchwylio darbodus banciau, cymdeithasau adeiladu, undebau credyd, yswirwyr a chwmnïau buddsoddi mawr. At ei gilydd mae'r PRA yn rheoleiddio oddeutu 1,700 o gwmnïau ariannol.

¹Pennwyd y Banc fel corff cyhoeddus at ddibenion Rhan II y Ddeddf yng Ngorchymyn Cynlluniau laith Gymraeg (Cyrrff Cyhoeddus) 2008 (S.I. 2008 Rhif. 1890 (W.179)) ac mae wedi'i hysbysu gan Fwrdd yr laith Gymraeg dan adran 7 y Ddeddf.

- 2.2 Mae gan y Banc lys o gyfarwyddwyr (“Llys”), yn cynnwys Llywodraethwr, 4 Dirprwy Lywodraethwr a chyfarwyddwyr eraill. Mae ganddo oddeutu 3,200 o staff.
- 2.3 Mae pencadlys y Banc a'r PRA yn Llundain a chynhelir canolfannau arian parod yn Debden a Leeds. Hefyd mae gan y Banc ddeuddeg Asiantaeth a leolir o gwmpas y Deyrnas Unedig, yn cynnwys Asiantaeth i Gymru a leolir yng Nghaerdydd. Fel arfer, mae gan bob Asiantaeth bedwar cyflogai o'r Banc.

Amcanion, pwrpasau a swyddogaethau'r Banc

- 2.4 Mae'r Banc yn gweithredu o fewn fframwaith statudol, yn cynnwys Deddf y Bank of England 1998 (“Deddf 1998”), Deddf Bancio 2009 (“Deddf 2009”), a Deddf Gwasanaethau Ariannol 2012 (“Deddf 2012”). Mae Deddf 1998 yn cyflwyno'r fframwaith ar gyfer Pwyllgor Polisi Ariannol y Banc, ac yn pennu amcanion polisi ariannol statudol i'r Banc. Mae Deddf 2009 yn pennu amcan sefydlogrwydd ariannol statudol i'r Banc. Diddymodd Deddf 2012 yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol gan greu strwythur rheoleiddiol newydd a oedd yn cynnwys Pwyllgor Polisi Ariannol y Banc, y PRA a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.
- 2.5 Cenhadaeth y Banc yw hyrwyddo lles pobl y Deyrnas Unedig drwy cynnal sefydlogrwydd ariannol.

Mae sefydlogrwydd cyllidol yn golygu prisiau sefydlog a hyder yn yr arian. Diffinir prisiau sefydlog gan darged chwyddiant y Llywodraeth, yr hyn mae'r Banc yn ceisio ei ddiwallu trwy'r penderfyniadau a ddirprwyir i'r Pwyllgor Polisi Ariannol, yn egluro'r penderfyniadau hynny'n dryloyw ac yn eu gweithredu'n effeithiol yn y marchnadoedd ariannol. Mae'r Pwyllgor Polisi Ariannol yn gosod Cyfradd y Banc ac amodau ariannol â'r nod o gwrdd â'r targed. Trwy ei fenthycyca i'r marchnadoedd mae'r Banc yn creu sail i hylifedd y system fancio.

Mae Sefydlogrwydd Ariannol yn golygu cynnal llif effeithlon o arian o fewn yr economi a hyder mewn cyfryngwyr ariannol. Dilynir hyn trwy: weithrediadau ariannol y Banc, gan gynnwys fel y benthycwr pan fetho popeth arall; penderfyniadau'r Pwyllgor Polisi Ariannol; rheoleiddio darbodus gan y PRA o sefydliadau ariannol; rôl y Banc fel awdurdod datrys; a goruchwylio a rheoleiddio gan y Banc o seilwaith talu, clirio a setlo allweddol.

Mae gan y PRA ddau amcan statudol: hyrwyddo diogelwch a chadernid sefydliadau ariannol ac, yn benodol ar gyfer yswirwyr, cyfrannu at sicrhau graddau priodol o amddiffyniad ar gyfer deiliaid polisi. Mae dau ofyniad statudol – Amodau Trothwy – y mae'n rhaid i gwmnïau gwrdd â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys cwmnïau'n cynnal cyfalaf a hylifedd priodol, a chael rheolaeth addas.

- 2.6 Mae'r Banc yn cynnal swyddogaethau bancio penodol fel banciwr ar ran Llywodraeth Ei Mawrhydi. Mae'r rhain yn cynnwys rheoli'r cronfeydd o arian estron a nifer o wasanaethau bancio eraill. Hefyd mae'r Banc yn darparu gwasanaethau bancio i fanciau canolog a banciau clirio'r DU.
- 2.7 Mae'r Banc yn cyhoeddi papurau banc sy'n arian cyfreithlon yn Lloegr a Chymru, ac, o dan Ddeddf 2009, mae'n rheoleiddio cyhoeddiadau papurau banc yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- 2.8 Hefyd dan Ddeddf 2009, mae gan y Banc bwerau i oruchwylio systemau talu rhwng banciau, ac i ddatrys banciau a chymdeithasau adeiladu sydd wedi methu yn unol â'r system ddatrys arbennig.
- 2.9 Dan Ddeddf 2012, derbyniodd y Banc gyfrifoldeb am oruchwylio partïon canolog i gontract a systemau setlo gwarantau yn y Deyrnas Unedig.

II. Mesurau mae'r Banc yn Bwriadu eu Cymryd

3 Materion penodol

- 3.1 Mae adran hon y cynllun yn amlinellu mesurau penodol mae'r Banc yn bwriadu eu cymryd mewn rhol effaith i'r egwyddor o gydraddoldeb.
- 3.2 Fel y gellir ei weld o'r amlinelliad uchod, mae'r Banc a'r PRA yn cynnal llawer o swyddogaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, gydag ychydig o eithriadau, nid ydynt yn darparu'n uniongyrchol (neu drwy drydydd partïon) wasanaethau i'r cyhoedd (o fewn ystyr y Ddeddf).

Cyhoeddi papurau banc

- 3.3 Mae gwasanaethau'r Banc i'r cyhoedd mewn cysylltiad â phapurau banc yn cynnwys cyhoeddi'r papurau banc, codi ymwybyddiaeth a materion cysylltiedig. Fel arfer nid yw'r Banc yn delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd wrth gyhoeddi papurau banc, gan fod y rhain yn cael eu dosbarthu gan fanciau masnachol yn hytrach na gan y Banc. Fodd bynnag, mae gan y Banc fuddiant ogodi ymwybyddiaeth ynghylch uniondeb y papurau banca'r risgiau o ffugio arian. Bydd y Banc, yn gyffredinol, yn trefnu bod fersiynau Cymraeg o'i wybodaeth graidd ar gael er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch uniondeb ei bapurau banca'r risgiau o ffugio arian, yn ogystal â ffurflenni'n perthyn i brosesau cyfnewid papurau a phapurau banc sydd wedi'u niweidio neu wedi'u hanffurfio.

Datrys Banciau

- 3.4 Mae gan y Banc gyfrifoldebau statudol dan Ddeddf Bancio 2009 ynghylch datrys banciau a chymdeithasau adeiladu sydd wedi methu. Gall y cyfrifoldebau hyn alw ar y Banc i ymarfer pwerau sefydlogi ynghylch banc neu gymdeithas adeiladu sydd wedi methu. Nid yw ymarfer pwerau sefydlogi'n golygu bod y Banc yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd.
- 3.5 Fodd bynnag, heblaw am ei swyddogaethau statudol, gall y Banc ystyried ei fod yn briodol i gyhoeddi gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr a effeithir pan yw cymerwr adneuo'n sydd mewn trafferthion yn cael ei ddatrys. Gall hyn, er enghraifft, berthyn i'r pwerau sefydlogia ymarferwyd, neu gallai berthyn yn fwy cyffredinol i sefydlogrwydd ariannol.
- 3.6 Yn aml cymerir datrysiadau banc ar fyr rybudd ac maent yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol. Felly nid yw manylion datrysiad banc ar gael cyn y digwyddiad, felly mae'n debygol y bydd angen paratoi a chyhoeddi gwybodaeth yn gyflym iawn, oherwydd yr angen i hysbysu'r cyhoedd yn gyflym ac i leddfu pryderon. Mae'n debygol y byddai'r fath wybodaeth yn cael ei pharatoi yn y Saesneg yn gyntaf. Lle mae gan fanc neu gymdeithas adeiladu mewn trafferthion ganghennau yng Nghymru ac rydym yn cyhoeddi gwybodaeth berthnasol ar gyfer defnyddwyr, byddwn, lle mae amseru ac amgylchiadau eraill yn caniatáu, yn trefnu i'r wybodaeth gael ei chyfieithu a'i chyhoeddi yn y Gymraeg. Lle mae gwybodaeth yn amser-gritigol, mae'n debygol y byddwn yn cyhoeddi pob fersiwn iaith cyn gynted ag y mae'n barod. Mae'r ymrwymadau hyn yn perthyn i wybodaeth a gyhoeddir gan y Banc; nid ydynt yn ymestyn i wybodaeth y gallai'r banc neu gymdeithas adeiladu a effeithir ei darparu i'w gwsmeriaid.

Swyddogaethau eraill y Banc

- 3.7 Gall swyddogaethau eraill y Banc gynnwys agwedd gyhoeddus, ond oherwydd eu natur arbenigol neu dechnegol (fel gweithrediadau'r farchnad agored a gynhelir o'i brif swyddfa yn Llundain, neu oruchwylio cwmnïau unigol), ni ellid eu cynnal yn ymarferol yn y Gymraeg wrth ochr y Saesneg. Felly, nid yw'r Banc yn bwriadu cynhyrchu fersiynau Cymraeg o ddogfennaeth a ddefnyddir gan feysydd arbenigol neu dechnegol y Banc neu'r PRA.

Asiantaeth y Banc i Gymru

- 3.8 Mae'r atodiad i'r cynllun hwn yn perthyn i asiantaeth y Banc yng Nghymru. Yn bennaf, nid yw'r asiantaeth hon yn bodoli i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'n rhyngwyneb gyda'r cyhoedd yng Nghymru ac, fel a gyflwynir yn yr atodiad, mae'r Banc yn bwriadu dilyn darpariaethau'r cynllun hwn a materion ychwanegol mewn cysylltiad â'i Asiantaeth i Gymru.

4 Cynllunio a chyflawni gwasanaethau

- 4.1 Mae adran hon y cynllun yn amlinellu ymagwedd gyffredinol y Banc tuag at gynllunio a chyflawni gwasanaethau mae'r Banc yn bwriadu ei chymryd er mwyn rhoi effaith i'r egwyddor o gydraddoldeb.

Polisiâu a mentrau yn gysylltiedig â gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru

- 4.2 Lle rydym yn ffurfio polisiâu a mentrau yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn asesu'r canlyniadau ieithyddol. Ac, wrth ddatblygu mentrau newydd, byddwn yn ystyried bwriadau'r cynllun. Bydd hyn er mwyn hyrwyddo a hwyluso, lle mae'n ymarferol, y defnydd o'r Gymraeg mewn cysylltiad â'r fath wasanaethau. Byddwn yn sicrhau bod polisiâu a mentrau newydd mewn cysylltiad â'r fath wasanaethauyn gyson â'r cynllun hwn.
- 4.3 Yn neilltuol, byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod staff sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru'n ymwybodol o'r cynllun a'r cyfrifoldebau dan y Ddeddf. Efallai y byddwn yn ymgynghori â Comisiynydd y Gymraeg lle bydd cynigion ynghylch polisi'n effeithio ar y cynllun neu ar gynlluniau Iaith Gymraeg sefydliadau eraill.
- 4.4 Lle mae polisiâu a mentrau yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru wedi'u ffurfio fel y gallant weithredu mesurau a gynhwysir yn y cynllun hwn, byddwn yn sicrhau y cymerir camau priodol i weithredu'r mesurau hyn trwy wneud y mesurau'n rhan hanfodol o brosiectau ar gyfer cyflawni'r polisiâu a mentrau.

Cyflawni gwasanaethau

- 4.5 Ein harfer arferol fydd i sicrhau, lle mae'n ymarferol, bod ein gwybodaeth ysgrifenedig a ddarperir at ddibenion hysbysu'r cyhoedd yng Nghymru ar gael yn Gymraeg. Fel a amlinellwyd uchod mewn cysylltiad â'r gwasanaethau i'r cyhoedd ynghylch papurau banc, bydd hyn yn cynnwys cyhoeddiadau sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr, yn arbennig mewn cysylltiad â phapurau banc.
- 4.6 Mewn cysylltiad â chyhoeddiadau eraill, mae llawer o'n dogfennau o natur dechnegol ac/neu amser-gritigol. Er enghraifft, mae'r Banc yn cyhoeddi nifer o ddogfennau mewn cysylltiad â pholisi ariannol a sefydlogrwydd cyllidol fel yr Adroddiad ar Chwyddiant, yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd Cyllidol a hysbysiadau'r farchnad. Ni fyddai'n ymarferol inni gyhoeddi'r fath ddogfennau yn y Gymraeg.

Gwasanaethau yr ymgymherir â nhw ar ein rhan gan drydydd partiön

- 4.7 Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau y byddwn yn eu gwneud gyda thrydydd partiön ac sy'n perthyn i'r ddarpariaeth o wasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru'n gyson â rhannau perthnasol y cynllun hwn.
- 4.8 Bydd hyn yn cynnwys trefniadau i sicrhau bod unrhyw drydydd parti'n gallu gweithredu, ac y bydd yn gweithredu, unrhyw elfennau cymwys o'r cynllun wrth ddarparu'r fath wasanaethau.

Safonau ansawdd

- 4.9 Lle darperir gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg, byddwn yn sicrhau y bydd y rhain o'r un ansawdd a, lle mae'n ymarferol, darperir y rhain o fewn yr un amserlen.

5 Delio gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

- 5.1 Mae adran hon y cynllun yn amlinellu'r camau mae'r Banc yn bwriadu eu cymryd i roi effaith i'r egwyddor o gydraddoldeb wrth ddelio gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

Gohebiaeth (e-bost a phapur)

- 5.2 Bydd ein harfer arferol mewn cysylltiad â gohebiaeth fel sy'n dilyn.
- 5.3 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg (heblaw am gais dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, gweler isod) byddwn yn sicrhau y rhoddir ymateb gyda chyfieithiad i'r Gymraeg (os oes angen ymateb). Bydd ein hamser targed ar gyfer ymateb yr un peth ag ar gyfer ymateb i llythyrau yn Saesneg gan ychwanegu amser rhesymol i drefnu cyfieithiad.
- 5.4 Pan fyddwn yn cychwyn gohebiaeth gydag aelodau'r cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg pan wyddom y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg. Bydd ein prif gronfa ddata ar gyfer gohebiaeth yn cofnodi lle mae aelod o'r cyhoedd wedi mynegi hoffter am ohebu yn y Gymraeg..
- 5.5 Bydd amgaeadau a anfonir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, ble maent ar gael.
- 5.6 Bydd unrhyw amgaeadau a anfonir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, ble maent ar gael.

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

- 5.7 Lle byddwn yn derbyn cais dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn Gymraeg, ein harfer cyffredin fydd i ymateb fel sy'n dilyn. Anfonir unrhyw ymateb eglurhaol yn Gymraeg, bydd unrhyw ddeunydd a ddatgelir yn Saesneg neu ei iaith wreiddiol oni bai iddo gael ei gynhyrchu yn Gymraeg yn unol â'r cynllun hwn. Bydd ein hamser targed ar gyfer ymateb i'r fath gais yr un peth â phe byddai wedi bod yn Saesneg, sef 20 o ddiwrnodau gwaith. Os bydd yr amser ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer cyfieithu'n gwrthdaro â'r targed hwnnw, efallai y byddwn yn ymateb yn Saesneg yn gyntaf, gan gadarnhau (yn Gymraeg) y bydd cyfieithiad Cymraeg yn dilyn cyn bo hir wedyn.

Cyfathrebu ar y ffôn

- 5.8 Ni fyddai'n ymarferol inni gynnal sgysiau ffôn yn Gymraeg oherwydd ein lleoliad, heblaw am fel y manylir arno yn yr atodiad i'r cynllun hwn mewn cysylltiad â'n Hasiantaeth yng Nghymru.
- 5.9 Ar hyn o bryd nid ydym yn darparu llinellau cymorth ffôn na gwasanaethau tebyg. Os sefydlwn llinellau cymorth ffôn, neu wasanaethau tebyg, er mwyn rhoi gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth i'r cyhoedd yng Nghymru byddwn yn ystyried darparu gwasanaeth iaith Gymraeg. Lle rydym yn darparu gwasanaeth iaith Gymraeg, byddai hwn yn cael ei hysbysebu yng Nghymru wrth ochr y gwasanaeth iaith Saesneg. Lle mae'n ymarferol, byddai'r ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn.

Cyfarfodydd cyhoeddus

- 5.10 Fel arfer nid ydym yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru.
- 5.11 Os byddwn yn gwneud hyn yn y dyfodol, byddwn yn ystyried yr angen am gyfleusterau cyfieithu a threfniadau eraill er mwyn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn deall bod croeso iddynt gyfrannu yn Gymraeg neu Saesneg.
- 5.12 Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallai hyn gynnwys, er enghraifft, sicrhau bod gwahoddiadau a hysbysiadau sy'n cyhoeddi'r fath ddigwyddiad yn ddwyieithog, gan wahodd y rhai hynny sy'n dymuno siarad yn Gymraeg i hysbysu trefnydd y digwyddiad o flaen llaw fel y gellir trefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ac y gellir darparu papurau ar gyfer y fath ddigwyddiad, yn Gymraeg a Saesneg yn unol â'r ymrwymadau cyhoeddi yn y cynllun hwn.

Busnes arall gyda'r cyhoedd yng Nghymru

- 5.13 Yn gyffredinol, lle mae'r Banc eisiau cynnal arolwg cyhoeddus, mae'n defnyddio cwmni arbenigol sy'n cynnal arolygon ar draws y Deyrnas Unedig gyfan. Pe byddem yn cynnal arolwg cyhoeddus yn uniongyrchol (yn hytrach na thrwy ddarparwr arolwg), byddai'r egwyddorion dilynol yn cael eu gweithredu. Os oedd yr arolwg yn cael ei dargedu ar aelodau'r cyhoedd yng Nghymru, byddem yn darparu cyfieithiad Cymraeg o'r ohebiaeth i unrhyw dderbynydd a oedd yn gofyn amdano. Os oedd yr arolwg yn cael ei dargedu ar hap ledled y Deyrnas Unedig, byddem yn dilyn yr ymagwedd hon os oedd yn ymarferol i wneud felly.

6 Ein hwyneb cyhoeddus

- 6.1 Mae adran hon y cynllun yn amlinellu materion ynghylch wyneb cyhoeddus y Banc a'r egwyddor o gydraddoldeb.

Enw a chyfeiriad

- 6.2 Enw'r Banc, fel a sefydlwyd yn rhinwedd ymgorfforiad y Banc trwy Siarter Frenhinol yn unol â statud yn 1694 yw "The Governor and Company of the Bank of England". Yn rhinwedd Deddf Ddehongli 1978, gellir cyfeirio at y Banc fel y "Bank of England". Nid oes amrywiolyn Cymraeg mewn statud. Mae Deddf Gwasanaethau Ariannol 2012 yn darparu i'r PRA gael ei gyfieithu fel yr 'Awdurdod Rheoleiddio Darbodus'.

- 6.3 Mae prif swyddfeydd y Banc a'r PRA yn Lloegr. Felly mae'n briodol i'r cyfeiriadau hyn gael eu cyflwyno yn Saesneg yn y deunydd i gyd. Fodd bynnag, gweler yr atodiad i'r cynllun hwn ynghylch Asiantaeth y Banc yng Nghymru.

Logo a materion hunaniaeth corfforaethol eraill

- 6.4 Mae ein logos yn cynnwys ein henwau (gweler uchod) a symbol Britannia, heb unrhyw eiriau ychwanegol.

Arwyddion mewn swyddfeydd yng Nghymru

- 6.5 Gweler yr atodiad i'r cynllun hwn ynghylch Asiantaeth y Banc yng Nghymru.

Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

- 6.6 Ac eithrio datrys banc (a amlinellir uchod) yr unig amser rydym yn debygol o ymgymryd ag ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd neu hysbysebu a ddarperir fel rhan o wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yw mewn cysylltiad â phapurau banc. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, pan y cyflwynir papur newydd neu pan yw un hen yn cael ei dynnu'n ôl, neu pan fydd angen inni dynnu sylw'r cyhoedd i fesurau gwrth-ffugio. Lle ymgymerir â hyn fel rhan o wasanaeth rydym yn ei ddarparu i'r cyhoedd yng Nghymru, ein harfer fydd i gynnal y fath ymgyrchoedd yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

- 6.7 Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, darparu ein taflenni a phosteri craidd ynghylch papurau banc (h.y. y rhai mwyaf poblogaidd) yn Gymraeg a chreu deunydd a gaiff ei anelu at y cyhoedd yng Nghymru, yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd – gyda'r ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, blaenoriaeth ac ansawdd, a gyda'r ddau fersiwn ar gael, lle mae'n ymarferol, ar yr un pryd ac yr un mor hygrych.

- 6.8 Bydd unrhyw hysbysebion mewn cysylltiad â'r gwasanaethau hyn a roddir mewn papurau newydd iaith Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddosbarthir yn bennaf neu'n gyfangwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

- 6.9 Mewn cyhoeddiadau iaith Gymraeg, bydd hysbysebion yn Gymraeg yn unig.

Gwefannau

- 6.10 Bydd ein gwefan yn cynnwys dyfais lywio a fydd yn arwain y defnyddiwr at faes sy'n darparu gwybodaeth sylfaenol yn Gymraeg, (yn cynnwys pw ydym, yr hyn rydym yn ei wneud, ein hamcanion statudol a manylion cyswllt) a dolenni i ddeunydd Cymraeg arall ar y wefan.

- 6.11 Lle rydym yn penderfynu ei fod yn briodol i gynhyrchu deunydd generig penodol yn ddwyieithog, byddwn hefyd yn cyhoeddi hwn ar ein gwefan yn ddwyieithog. Mewn ymateb i geisiadau penodol, byddwn yn ystyried trefnu bod deunydd pellach ar gael yn Gymraeg.

- 6.12 Pryd bynnag byddwn yn postio ein cyhoeddiadau iaith Saesneg ar ein gwefannau ac mae fersiwn iaith Gymraeg ar gael, byddwn yn postio'r fersiwn iaith Gymraeg ar yr un pryd. Lle mae fersiwn iaith Gymraeg yn dod ar gael wedyn, byddwn yn postio hwn ar ein gwefan pan fydd ar gael.

- 6.13 Byddwn yn adolygu, ar y cyd gyda Comisiynydd y Gymraeg sut y gallwn gynyddu cynnwys iaith Gymraeg ein gwefan dros gyfnod o amser a byddwn yn manylu yn ein hadroddiadau monitro i'r

Comisiynydd (gweler paragraff 8.3 isod) ar unrhyw fesurau gweithredu a fwriedir ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig

- 6.14 Bydd ffurflenni y byddwn yn eu cynhyrchu at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru'n Gymraeg a Saesneg lle mae'n ymarferol. (Fodd bynnag, sylwch ar y cyfyngiadau uchod ynghylch materion arbenigol neu dechnegol.) Byddwn, lle mae'n ymarferol, yn trefnu bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a byddwn yn hysbysu'r cyhoedd ynghylch argaeledd y ddau fersiwn.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

- 6.15 Bydd ein hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a gyhoeddir yng Nghymru mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru:
- pan ydynt yn cael eu cyhoeddi mewn cyhoeddiadau iaith Saesneg a ddsbarthir yn bennaf neu'n gyfangwbl yng Nghymru, yn ymddangos fel fersiynau dwyieithog neu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân;
 - pan ydynt yn cael eu cyhoeddi mewn cyhoeddiadau iaith Gymraeg, byddant yn ymddangos yn Gymraeg.

- 6.16 Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd a blaenoriaeth. Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a roddir mewn man arall yng Nghymru'n ddwyieithog.

Datganiadau i'r wasg a chyswlltâ'r cyfryngau

- 6.17 Rydym yn cyhoeddi hysbysiadau gwasg i'r wasg ledled y Deyrnas Unedig ac fel arfer ni fyddai'n ymarferol i'r hysbysiadau gwasg hyn gael eu darparu yn Gymraeg.
- 6.18 Fodd bynnag, efallai y bydd achlysuron lle rydym yn anfon datganiadau i'r wasg at y wasg yng Nghymru'n unig, ac os hynny, lle mae terfynau amser yn caniatáu, caiff y rhain eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg, neu yn unol ag hoffter iaith y sefydliad neu gyhoeddiad yn y cyfryngau sy'n eu derbyn.
- 6.19 Pan fyddwn yn postio datganiad i'r wasg a gyfieithwyd i'r Gymraeg ar ein gwefan, ein harfer arferol fydd i'w bostio yn Gymraeg a Saesneg.

Cyswllt arall â'r cyhoedd yng Nghymru

- 6.20 Ymgwymerir âchyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru, mewn cysylltiad âgwasanaethau rydym yn eu darparu iddynt, nad yw'r cynllun hwn a'i atodiad yn delio'n benodol ag ef, mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol a gynhwysir yny cynllun hwn.

III. Gweithredu ac adolygu ac ati

7 Gweithredu'r cynllun

- 7.1 Mae'r mesurau yn y cynllun hwn yn dal awdurdod llawn Llys Cyfarwyddwyr y Banc.

- 7.2 Rydym yn bwriadu gweithio'n agos gyda Comisiynydd y Gymraeg er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.
- 7.3 Rydym wedi penodi uwch-aelod o staff i gydgyssylltu'r gwaith sy'n ofynnol i gyflawni, monitro ac adolygu'r cynllun hwn. Bydd hyn yn adnabod y rheolwyr penodol a fydd yn gyfrifol am gyflawni'r cynllun fel cyfanwaith, a'r rhai hynny y bydd y cynllun yn effeithio ar eu gwaith ac a fydd, felly, yn cael cyfrifoldebau penodol oddi dano.
- 7.4 Caiff y cynllun ei hysbysu i'n staff, ac i'r cyhoedd. Caiff ei gyhoeddi ar ein gwefan mewn man hygrych.

Staffio, Recriwtio, Hyfforddiant Iaith a Hyfforddiant Galwedigaethol

- 7.5 Gweler yr atodiad mewn cysylltiad â recriwtio ar gyfer swydd yng Nghymru.
- 7.6 Byddwn yn cynnig hyfforddiant iaith Gymraeg i staff nad ydynt yn fedrus yn Gymraeg pan fydd angen busnes iddynt fod yn fedrus yn yr iaith Gymraeg.
- 7.7 Lle mae'n ymarferol, byddwn yn cynnig hyfforddiant galwedigaethol ar faterion ynghylch yr iaith Gymraeg i staff sy'n delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd yng Nghymru

Cyfieithiadau

- 7.8 Byddwn yn sicrhau, pan ydym yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu Cymraeg allanol, y byddwn yn defnyddio cyfieithwyr neu gyfieithwyr ar y pryd cymwys yn unig i helpu gyda chyflawni'r cynllun hwn.
- 7.9 Mae gennym gysylltiadau â gwasanaethau cyfieithu allanol priodol.

8 **Monitro**

- 8.1 Byddwn yn monitro ein cynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn yn ôly dyddiadau ar gyfer gweithredu a roddir yn y cynllun.
- 8.2 Bydd ein gweithdrefnau monitro ac adrodd yn cynnwys cyfeirio at gynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn, fel sy'n briodol.
- 8.3 Byddwn yn anfon adroddiadau monitro i Comisiynydd y Gymraeg, neu fela gytunir fel arall gyda'r Comisiynydd. Bydd yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth fel:
- Diweddariad ar weithredoedd yn y Cynllun gyda dyddiadau ar gyfer gweithredu;
 - Crynodeb o'r graddau i'r iaith Gymraeg gaelel hystyried a'i hyrwyddo o fewn y datblygiad o bolisiau a mentrau newydd (gweler paragraff 4.2 uchod);
 - Manylion o unrhyw newidiadau i'r Cynllun y gallai fod eu hangen oherwydd newidiadau i reoleiddio ariannol; a
 - Data ar unrhyw gwynion a dderbynnir dan baragraff 10.2 isod a chamau a gymerir i'w datrys.

9 **Adolygu a diwygio'r cynllun**

- 9.1 Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd ar ôliddo ddod yn effeithiol (Hydref 2011).
- 9.2 Pryd bynnag y byddwn yn adolygu'r cynllun, byddwn hefyd yn asesu a oes angen diffinio swyddi penodol fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol neu lle mae'r Gymraeg yn ddymunol.
- 9.3 Hefyd, o bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen inni adolygu'r cynllun hwn, neu argymhell gwelliannau i'r cynllun, oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau, neu i'r amgylchiadau rydym yn ymgymryd â'r swyddogaethau hynny ynddynt, neu oherwydd unrhyw reswm arall. Gellir diwygio'r cynllun yn unol ag adran16 y Ddeddf.

10 **Cysylltu â'r banc, cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella**

- 10.1 Gellir cysylltu â ni ynghylch y cynllun hwn yn y cyfeiriad dilynol:

Pennaeth yr Is-adran Cyfathrebu Rhanddeiliaid a Strategaeth
Bank of England
Llundain EC2R 8AH

neu drwy e-bost i: enquiries@bankofengland.co.uk

- 10.2 Dylid cyfeirio cwynion ynghylch y cynllun hwn, neu awgrymiadau ar gyfer gwella, i'r cyfeiriad uchod.
- 10.3 Bydd y Banc yn cymryd pob cam ymarferol i gydweithredu gyda'r Comisiynydd mewn cysylltiad ag unrhyw gwynion a ddygir dan Adran 18 y Ddeddf ac yn ystod unrhyw archwiliadau a gynhelir dan Adran 17 y Ddeddf.

ATODIAD

I. Asiantaeth y Banc I Gymru

1 Cefndir

- 1.1 Mae gan y Banc ddeuddeg Asiantaeth wedi'u lleoli o gwmpas y Deyrnas Unedig, yn cynnwys Asiantaeth i Gymru a leolir yng Nghaerdydd.
- 1.2 Prif rôl yr Asiantaethau yw asesu'r amodau economaidd – lleol, cenedlaethol a rhyngwladol – sy'n effeithio ar fusnesau yn eu hardal. Nid oes ganddynt gyfrifoldebau'n gysylltiedig â'r PRA. Mae aelodau staff yr asiantaethau'n gyflogeion y Banc ac mae ganddynt ystod eang o gysylltiadau busnes. Ar y cyd â chysylltiadau eraill â busnes, maent yn cyflwyno i'r Banc a'i Bwyllgor Polisi Ariannol ffenestr i'r ffordd mae'reconomi'n gweithio, ac asesiad cyfredol o amodau busnes. Mae hyn yn caniatáu i'r Banc ystyried, gyda chysylltiadau, amodau busnes a materion eraill o ddiddordeb neu sy'n peri pryder i'r Banc. Hefyd mae'n rhoi cyfle i'r asiantiaid egluro gwaith a pholisïau'r Banc, a'i farn ei hunan ar yr economi. Adroddir ar fewnwelediadau a geir o'r cyfarfodydd hyn gan yr asiantiaid i'r Pwyllgor Polisi Ariannol, at ddiben ei benderfyniadau ar lefely Gyfradd Banc.
- 1.3 Yn bennaf, nid yw'r Asiantaethau'n bodoli i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae pob Asiantaeth yn rhyngwyneb rhwng y Banc a'r cyhoedd yn yr ardal honno'r Deyrnas Unedig.
- 1.4 Lleolir yr Asiantaeth i Gymru mewn swyddfa yng Nghaerdydd. Felarfer, felgydag Asiantaethau eraill y Banc, mae'n caelei staffio gan bedwar obobl, yr Asiant a Dirprwy Asiant a dau ostaff cymorth.
- 1.5 Mae'r Dirprwy Asiant cyfredol (Rhagfyr 2013) yn Gymro [Gymraes] Cymraeg [Gymraeg].
- 1.6 Bydd yr Asiantaeth yn cadw at ddarpariaethau'r cynllun a bydd y materion dilynol yn perthyn hefyd.

II. MESURAU MAE'R ASIANTAETH YN BWRIADU EU CYMRYD

2 Wyneb cyhoeddus yr Asiantaeth

Enw a chyfeiriad

- 2.1 Bydd yr Asiantaeth yn defnyddio'r enw "Bank of England – Agency for Wales/ AsiantaethiGymru" a rhoddir ei henw yn Saesneg ac yn Gymraeg. Gelwir yr Asiant a'r Dirprwy Asiant yn "Agent/ Asiant" a "Deputy Agent/ DirprwyAsiant" yn ei dro yng Nghymru.

3 Delio gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Gohebiaeth (e-bost a phapur) a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth

- 3.1 Mewn cysylltiad â gohebiaeth, bydd yr Asiantaeth yn dilyn y darpariaethau yn y cynllun.
- 3.2 Ar ben hynny, bydd yr Asiantaeth yn cynnal cofnod o'i ohebwy'r sy'n dymuno gohebu yn Gymraeg.

Cyfathrebu ar y ffôn

- 3.3 Annogir staff yn yr Asiantaeth i Gymru i gynnwys cyfarchiad byr yn Gymraeg wrth ateb y ffôn.
- 3.4 Lle mae galwr yn siarad yn Gymraeg neu'n gofyn am wneud hynny, bydd staff sy'n siarad Cymraeg, lle mae'n ymarferol, yn siarad Cymraeg; bydd staff nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cynnig trosglwyddo'r galwad i rywun sy'n siarad Cymraeg, gwneud trefniadau ar gyfer galwad ffôn gyda rhywun sy'n siarad Cymraeg neu roi'r opsiwn i ysgrifennu i'r Asiantaeth yn Gymraeg.

Cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r Asiantaeth

- 3.5 Felarfer, mae unrhyw gyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r Asiantaeth i Gymru'n digwydd fel y gall yr Asiant neu'r Dirprwy Asiant drafod amodau economaidd ac amodau busnes gyda chysylltiadau busnes. Pwrpas y cyfarfodydd hyn yw casglu gwybodaeth a ddefnyddir o fewn y Banc, yn Saesneg. Yn y cyfarfodydd, felarfer bydd yr Asiant neu'r Dirprwy Asiant yn rhoi trosolwg o farn cyfredol y Banc ar y rhagolwg economaidd, gan adeiladu ar ddogfennau a baratôwyd gan y Banc yn Saesneg, fel yr Adroddiad Chwyddiant a Chofnodion y Pwyllgor Polisi Ariannol. Os yw'r Asiant neu'r Dirprwy Asiant a'r cysylltiad busnes yn siarad Cymraeg ill dau ac os yw'r dau'n dymunocyfathrebu yn Gymraeg, bydd hawl ganddynt i wneud hynny.
- 3.6 Hefyd efallai bydd yr Asiantaeth i Gymru, o bryd i'w gilydd, yn cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru. Os felly, bydd yr Asiantaeth yn sicrhau, ar gyfer y fath gyfarfodydd, lle mae aelod o'r cyhoedd yn gofyn yn benodol i'r cyfarfod gaelel gynnalyn Gymraeg, ble bynnag mae'n ymarferoli wneud hynny, bydd yr Asiantaeth yn trefnu naillai i aelod ostaff sy'n siarad Cymraeg neu gyfieithydd fod yn bresnol neu wneud trefniadau eraill i gynorthwyo'r aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno siarad Cymraeg.

Arwyddion mewn swyddfeydd yng Nghymru

- 3.7 Bydd arwyddion gwybodaeth o fewn cwrtill swyddfa'r Asiantaeth yng Nghymru, gan gynnwys manau mewnol y gallai aelodau'r cyhoedd, ar brydiau, gael mynediad iddynt, yn ddwyieithog. Bydd y rhain yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurdeb a blaenoriaeth.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

- 3.8 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff sy'n perthyn i'r Asiantaeth:
- pan ydynt yn caeleu cyhoeddi mewn cyhoeddiadau iaith Saesneg a ddosbarthir yn gyfangwbl neu'n bennaf yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos felfersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân;
 - pan ydynt yn caeleu cyhoeddi mewn cyhoeddiadau iaith Gymraeg, byddant yn ymddangos yn Gymraeg.
- 3.9 Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartalo ran fformat, maint, ansawdd a blaenoriaeth. Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff sy'n perthyn i'r Asiantaeth a leolir rhywle arall yng Nghymru'n ddwyieithog.
- 3.10 Ble rydym yn recriwtio ar gyfer swydd yng Nghymru, lle mae'n briodol, byddwn yn sicrhau bod medrusrwydd yn y Gymraeg yn nodweddd ddymunol.